Cyf. L | Gorffennaf, 1950 | Rhif 7

YR YMOFYNNYDD

Gylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Cynnwys

Nodiadau'r Golygydd.
Y Bod o Dduw.
Y Weinidogaeth.
Fy Iesu. Cymeriad.
Ein cred am Frawdoliaeth Dyn. Dyn.
Aelodaeth Eglwysig.
Interview a Gwyr Blaenllaw yr Enwad (gynt).
Arholiadau 1949—50.
Gohebiaeth. Priodas.
Marwgofion.
Nodion yr Eglwysi.



YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—PRIFATHRO J. D. JONES, B.A., B.D.; PARCHN. S. E. BOWEN; D. EVANS; E. G. EVANS, B.A.; E. O. JENKINS; J. ISLAN JONES, M.A.; SIMON JONES, B.A.; A. J. MARTIN, B.A.; ISLWYN PRITCHARD, B.A.; J. MARLES THOMAS, M.A.; LEWIS WILLIAMS; T. O. WILLIAMS, M.A.; a'r DR. D. J. DAVIES, Mr. W. S. JONES, M.A., M.Sc., a Mr. D. JONES.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by MORTIMER ROWE, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By SIDNEY SPENCER, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. TARRANT, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. STEPHENS SPINKS, M.A., PH.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,
14, Gordon Square, London, W.C.1.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

Cyfrol l. GORFFENNAF, 1950. Rhif 7.

Nodiadau'r Golygydd.

Ewyllys Da i Bawb.

Wrth gyflwyno rhifyn 'enwadol' o'r Ymofynnydd a gaf i wneud hynny yn ysbryd geiriau'r Crynwyr (Y Cwacers), "Yn wyneb ofn a drwgdybiaeth cyffredinol y dyddiau yma, dymuna Cymdeithas y Cyfeillion neu'r Crynwyr ddanfon neges o ewyllys da i bawb ym mhob man. Gwnant apêl ar i bawb osgoi pob gair a gweithred a achosa annealltwriaeth ac i adnewyddu eu hymdrechion i ennyn cyd-ddealltwriaeth ac i osod sylfaen gadarn i deml heddwch. Credant yn ddiysgog fod ffordd y cymod yn agored o hyd. Gobeithiant y crea'r gair syml hwn yr ysbryd newydd a fedr droi adnoddau cyfoethog y gwledydd, nid i gyfeiriad rhyfel ond er lles teulu ym mhob rhan o'r byd."

Senedd i Gymru.

"Fel heddychwr digymrodedd ni allaf fi orffwys nes cael Cymru'n gwbl rydd oddi wrth imperialaeth a militariaeth Lloegr. Yn ôl fy marn i, plentyn imperialaeth yw militariaeth. Y mae Lloegr wedi treulio rhan helaeth o flynyddoedd ei bywyd i ennill tiroedd a marchnadoedd trwy rym arfau, a pharod ydyw i ddefnyddio grym arfau eto i amddiffyn y cwbl os gwêl fod hynny'n bosibl. Gwna hynny'r dyddiau hyn yn Malaya. Y mae'r Llywodraeth Lafur, er cywilydd tragwyddol iddi, trwy orfodaeth yn amser heddwch yn gwneuthur milwyr o'n pobl ifainc cyn dyfod ohonynt hyd yn oed i oedran pleidleisio ac yn trachwantu daear Cymru er mwyn dysgu Rhyfel . . . Yr wyf am gael Cymru'n gwbl rydd oddi wrth y drefn felltigedig hon. A gallai Cymru Rydd yn ymyl Lloegr roi esiampl iddi o genedl yn byw i werthoedd gwahanol a gwerthoedd uwch, a thrwy'r esiampl ddylanwadu'n ddaionus nid yn unig ar Loegr ond ar y byd ; gallai Cymru rydd hefyd gyd-weithio a Lloegr ac â phob gwlad arall mewn pethau da. . . . Dyna'r Gymru yr wyf am weld, gwlad yn byw nid trwy fara yn unig ond trwy bob gair a ddaw allan o enau Duw."—W. J. Rees, Alltwen, *o'r Tyst.*

Y Bod o Dduw.

Gan y Parch. Lewis Williams, Rhydygwin a Chiliau Aeron.

Yn gyntaf rhaid cael syniad am Dduw, a gwybod beth yw Duw. Gadawn i'r Iesu ateb. "Ysbryd yw Duw." Sylwedd ysbrydol yw Duw. Mae yn canlyn y rhai ei fod yn Berson, oblegid nid yw Ysbryd yn perthyn i ddim ond i Berson. Nid egni na gallu ydyw, ond Person. Dyma gyfeiliornad Herbert Spencer. Cyfaddefai fod rhyw Allu neu Egni, rhyw ddirgelwch anolrheiniadwy, ac felly mabwysiadodd Agnosticiaeth, anwybodaeth o'r Dwyfol, fel ei gredo. Ac eto, er y dadleuai mai annichon i neb oedd deall yr Egni hwn, mae'n amlwg y credai efe y gwyddai lawer amdano, canys daliai nad Ysbryd na meddwl na pherson ydyw.

Beth yw nodweddion arbennig Personoliaeth? Yr elfen gyntaf yw Hunanymwybyddiaeth. Perthyn ymwybyddiaeth i anifail. Pan welo anifail unrhyw wrthrych mae yn ymwybodol ei fod yn bod. Ond i berson yn unig y perthyn hunanymwybyddiaeth. Efe yn unig sydd yn medru gwneuthur ei hunan yn wrthrych ei feddylgarwch a'i ymchwiliad. Mae person yn un deallol, yn un y gellir ei gyfarch fel "tydi," yn un yn gallu gweithredu, yn un y gellir gweithredu arno neu tuag ato, yn un sydd yn adnabod ei hun oddi wrth eraill o'i gwmpas, ac yn un fedr droi ei lygaid i mewn arno ei hun, a gwneuthur ei hun yn wrthrych iddo ei hun. Person yw un yn meddi profiad o hono ei hun. Mae person yn fod sydd yn ymresymu, yn ewyllysio ac yn gwahaniaethu rhwng drwg a da. Medd ar reswm, a phenderfyna ei weithrediadau ei hun. Perthyn i berson y gallu i adnabod ei hun mewn cyferbyniad i bob peth o'i gwmpas.

Y mae'r bersonoliaeth ddwyfol yn ddiau yn rhywbeth llawer mwy a mwy cynhwysfawr na'r bersonoliaeth ddynol, ond y bersonoliaeth ddynol yw'r ddelw orau o Dduw a fedrwn ni gael, a rhydd i ni syniad llawer cywirach amdano na'r syniad mai grym peiriannol neu ysgogiad bywiol neu ddrychfeddwl noeth ydyw.

Yr ail elfen mewn personoliaeth ydyw hunanlywodraeth. Mae yng ngallu Person i benderfynu ei weithrediadau ei hun. Mae'r gallu hwn mewn creadur, ond gweithio o fewn terfynau y mae mewn creadur. Mae cyfyngiad ar allu dyn i lywodraethu ei hun, oblegid mai meidrol ydyw. Mae'r gallu hwn yn Nuw yn ddilefethair. Nid oes un gallu gorfodol y tu allan i Dduw yn peri iddo wneud dim. Pob peth mae Duw wedi wneud, o'i ewyllys ef ei hun y mae wedi eu gwneud. Gan mai cariad yw Duw yr oedd yn rhaid iddo greu dyn, onide buasai yn anffyddlon i'w natur ei hun. Mater o ewyllys oedd creu dyn. Dywed Paul fod Duw yn gweithio pob peth wrth gyngor ei ewyllys ei hun (Ephesiaid I, ii). Felly yr

ewyllys Ddwyfol yw ffynhonell moesoldeb, yr ewyllys yw y gynneddf sydd yn llywodraethu Duw a dyn. A lle mae ewyllys y mae Person.

"Fy holl ffynhonau sydd ynot Ti," medd y Salmydd. Derbyn bywyd y mae dyn ; perchen bywyd y mae Duw. Nid derbyn bywyd o'r tuallan iddo y mae Duw fel creadur, ond meddi bywyd erioed. Priodol dweud fod achos ei hanfodion, nid y tu allan iddo, ond y tu fewn iddo. Nid oes duallan i Dduw. Efe yw achos ei fodolaeth ei Hun.

Er yr oll a ddywedwyd gennym, y mae yna rai a wadant y Bod o Dduw. Paham ? Oblegid mai nid gwirionedd y natur ddeallol yn unig ydyw fel gwirioneddau mesuroniaeth, ond gwirionedd y natur foesol hefyd, gwirionedd deall a gwirionedd calon.

Un o amodau gwybodaeth o'r byd allanol yw ymddiried yn nhystiolaeth y synhwyrau corfforol. Credwn fod byd allanol yn bod am yr ymddiriedwn yng ngonestrwydd ein synhwyrau corfforol, sef ein gallu i weled. Os yw synwyrau y corff yn deilwng o'n hymddiried, paham nad yw greddfau yr enaid, yn enwedig y reddf grefyddol yn deilwng o'n hymddiried ? Mae mewn dyn yr ymdeimlad fod Duw yn bod. Hon yw'r reddf ddyfnaf yn ein natur. Metha Atheistiaid ddadwreiddio hon. Os oferedd yw crefydd, ac os gwagedd yw Duw, paham na adawant lonydd iddynt ? Paham eu hymdrechion i'w lladd ? Er eu mynych ymdrechion i alltudio crefydd o'r meddwl ac o'r byd, dychwela o hyd, a maentumia y greddfau eu hawliau yng nghalonnau anffyddwyr, fel yn hanes Voltaire. Dengys hyn fod dyn yn credu yn reddfol yn Nuw, a chasglwn yn rhesymol oddi wrth hynny fod Duw yn bod.

Heblaw hynny medda dyn gynneddf sydd yn ei alluogi i ganfod Duw. Tra mae y reddf grefyddol sydd ynddo yn ei orfodi i addoli, mae ei gynneddf ganfyddiadol yn gweled Gwrthrych Addoliad. Gwyddom fod Duw a byd ysbrydol yn bod yng ywir yn yr un modd ag y gwyddom fod byd materol yn bod—drwy ein bod ni a Duw yn cyffwrdd a'n gilydd. Gŵyr y dyn anllythrennog fod byd materol yn bod yn gystal a'r dyn mwyaf dysgedig. Yn yr un modd cred y dyn anllythrennog ym modolaeth Duw mor drwyadl â'r dyn mwyaf gwybodus, oherwydd ei fod ef a Duw yn cyffwrdd a'u gilydd drwy y synhwyrau ysbrydol. Os na fedr ddadansoddi y cyffyrddiadau hyn, eto i'w deimlad ef y maent yn llawn mor sicr. Nid peth i ddadlau yn ei gylch ydyw, ond peth i'w benderfynu drwy brofiad.

Gall y gynneddf ganfyddiadol wanychu mewn dyn. Digwydd weithiau ei bod yn gwanychu mewn dynion dysgedig am y rheswm mai eu gwybodaeth a ddefnyddiant i ddeall pob peth. Nid yw pob dyn dysgedig yn ddiwylliedig. Cyn y bydd dyn yn ddiwylliedig mae yn rhaid fod ei natur foesol wedi ei diwyllio. Gall dyn gwybodus fod yn amddifad o uniondeb a boneddigeiddrwydd a moesgarwch a mwyneidd-dra, a lledneisrwydd ac ewyllys dda. Nid yw dyn felly yn ddiwylliedig gan nad pa mor wybodus bynnag

ydyw. Os yw yn amddifad o'r elfennau hyn, mae elfennau gwrthwynebol iddynt ynddo, sef anghariad, anuniondeb, eiddigedd ac ewyllys ddrwg. Mae elfennau felly yn ei wneud yn bersonoliaeth anhydrin, ac nis gall un o bersonoliaeth felly deimlo y cyffyrddiadau dwyfol. Y canlyniad yw ei fod yn mynd yn anffyddiwr. Tad trugarog yw Duw yn gwasgu ei hun i sylw y dyn ysbrydol, ac yn datguddio ei hun iddo. Rhoddwn gyfle i Dduw i ddatguddio ei hun i'r dyn oddi mewn.

Yn ychwanegol at yr uchod, y mae mewn dyn deimlad o ymddibyniad. Yn y dynion mwyaf duwiolfrydig y mae'r ymwybyddiaeth yn fwyaf byw o'u dibyniaeth ar arall.

A beth yw dibynnu ? Dibynnu ydyw pwyso, rhoddi ein goglyd ar wrthrych allanol. Gwelwn gan hynny fod dynoliaeth wedi ei chreu a'i gogwydd tuag at Dduw a Thragwyddoldeb. Os y gogwydda, a oes neb neu ddim iddi ogwyddo tuag ato, ac i roddi ei phwys arno ? Mae'r aderyn yn ymddiried yn ei reddfau, ac yn cael awyr i'w gynnal i ehedeg. Yn sicr gallwn ninnau ymddiried yng ngreddfau yr enaid. Ac y mae yn sicr fod yr ymdeimlad sydd ynom o ddibyniaeth yn brawf o fodolaeth Duw i ddibynnu arno.

Y Weinidogaeth.

Gan y Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D.

Peth cymdeithasol yw crefydd, ac y mae cymdeithasu yn rhan o natur crefydd, a'r canolfannau y mae crefydd erioed wedi ffynnu o'u hamgylch yw'r allor, yr offeiriad neu'r proffwyd. Ni cheisir mewn ysgrif fer fel hon olrhain datblygiad y pregethwr mewn Eglwys Gristnogol, ond ni ellir deall "pregethu" ar wahan i ystyriaeth o'i ddechreuad. Offerynnau pwysicaf Cristnogaeth o'r cychwyn yw'r allor a'r pulpud, ond nid meddiannau arbennig Cristnogaeth mohonynt. O dan yr allor Gristnogol y mae yna allorau hynach, ac o'r tu ôl i bob "pregeth" y mae etifeddiaeth hen draddodiadau. Dywedodd rhywun am y pregethu Cristnogol mai creadigaeth y proffwyd Hebraeg a rhetoreg Groeg ydyw. Yn yr Eglwysi Protestannaidd rhoddir y lle canol i'r "bregeth." Symbol yr Eglwysi hyn yw'r Beibl agored. Er holl rwysg ei defodau, nid all Pabyddiaeth hithau anwybyddu pwysigrwydd y "pregethu."

Pan fwrir golwg dros dyfiant crefydd, gwelir mai'r pregethwr yw'r dyn diwethaf i ddod i'r maes. O'i flaen daeth y bardd i ganu i'r duwiau ; yna daeth yr offeiriad i weinyddu wrth yr allorau, a daeth

yr athro hefyd i ddysgu'r addolwyr. Yn ddiweddarach daeth y proffwyd i fynegi ewyllys Duw mewn gair o gyngor a gorchymyn. Dawn y proffwyd yw gwrando a llefaru "gair Duw."

Pwysleisir hyn oherwydd mai'r unig weinidogaeth a gydnebydd yr Undodwr yw'r weinidogaeth *broffwydol*. Yng nghanolfan y gwasanaeth addoli rhoddir lle i'r "bregeth." Pa orchwylion bynnag eraill a ddisgwylir oddi wrth y gweinidog, y gwaith y galwyd ef iddo yw "pregethu."

Y mae pregethu yn sacrament. Ystyr gyffredin y gair "sacrament" yw arwydd allanol neu weledig o'r Realiti anweledig, a beth bynnag yw'r pwyslais a esyd yr Undodwr ar y sacramentau cydnabyddedig, fel Bedydd a Swper yr Arglwydd, rhaid i ni beidio ag anwybyddu'r pwyslais a esyd ar "Sacrament y Gair." Yn hyn y mae'r Undodiaid yn dal yn dyn yn eu traddodiad Protestannaidd. Iddynt hwy y mae'r "bregeth" yn rhywbeth amgenach na mynegiant o opiniynau un dyn ; y gair y mae Duw yn ei lefaru wrth y gynulleidfa drwy ei broffwyd ydyw. Hyn sy'n rhoi arbenigrwydd ar alwedigaeth y pregethwr.

Ni cheisir yma fwrw golwg ar hanes pregethu drwy'r canrifoedd, ond digon fydd dweud fod yr athrylith fel y gwynt yn chwythu lle bynnag y mynno. Ar dro gwelid y fflam yn ddisglair ; dro arall nid oedd yno ond y marwn, ond nid oedd y tân yn pallu. Rhoddodd ieuenctid eiddgar o genhedlaeth i genhedlaeth eu gwasanaeth i'r alwedigaeth ryfedd hon—ie, yr alwedigaeth ryfedd na allant ddianc oddi wrthi—yr alwedigaeth lle y mae llais dyn yn cyhoeddi ewyllys Duw a gair dyn yn trysori Gair Duw.

Ni esyd yr Undodwr bwyslais mawr ar ffurf-lywodraeth eglwysig. Mewn rhai gwledydd ar y Cyfandir ceir y ffurf Esgobol, yn Iwerddon y ffurf Bresbyteraidd, yng Nghymru a Lloegr y ffurf Cynulleidfaol. Wrth ddewis gweinidogion edrychir ar gymeriad ac ar ysgolheictod sy'n addas i'r gwaith.

Gofynnir, a berthyn i weinidog ryw rin neilltuol nas ceir mewn dyn arall ? Yn wahanol i rai cyfundebau eraill ni chydnebydd yr Undodiaid y gwahaniaeth hwn. Er mwyn eglurder gwell cyfeirio at syniad yr Eglwys Babyddol, syniad a dderbynir hefyd gan yr Eglwys yng Nghymru. Mynnant gredu fod y rhai sydd dan "Urddau" yn meddu ar alluoedd na chyfranogir ohonynt gan eu cyd-ddynion. Honnir ganddynt na all addolwyr dderbyn breiniau gwirioneddol crefydd ond trwy law yr offeiriad ordeiniedig. Dim offeiriad, dim crefydd. Sylfaenir yr athrawiaeth ar dyb a elwir yn *olyniaeth apostolaidd*. Ar y sylfaen hon ceisir rhoi i'r Eglwys awdurdod goruwchnaturiol, fod Duw'n cyhoeddi ei genadwri drwy ei offeiriad arbennig. Yn y gred hon gwel yr Undodwr gyfyngu ar Gariad Duw. Dyma rywbeth sy'n gwahanu'r Tad oddi wrth ei blant, ac yn amau dysgeidiaeth Iesu.

Fy Iesu.

Gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A.

"O, ie, Undodwr ydi chwi,—ac wrth gwrs, fel Undodwr dydi chwi ddim yn credu . . ." Nid oedd raid i'm cyfaill ddweud rhagor. Yn nhôn ei lais canfyddais yr hen ragfarn a dywyllodd feddyliau dynion, ac anhegwch a'r gwirionedd.

"Hanner munud," meddwn, "Cam ag Undodwr yw ei alw yn anghrediniwr."

Eithr mynnai fy nghyfaill ei ddweud.—"Ond dydi chwi ddim yn credu yn Iesu Grist." Synnais at ei anwybodaeth. "Credu yn Iesu" ? gofynais,—"credaf ynddo â'm holl galon."

"Ond beth am yr Enedigaeth wyrthiol, a'r athrawiaethau am Berson Crist a'n dysga yn y ffordd i feddwl amdano ?" Gwelais ar unwaith ei ddarlun o'r Iesu a gofynais—"Pwy a beth yw sail awdurdod eich credu chwi ?—Ai yr Iesu ei hun, ynteu a ddywaid eraill amdano ?" Ticiodd y geiriau, "Beth a feddyliwch ?" gofynnai. A dyma a feddyliaf,—dyma a gredaf :—

(1) *Credaf yr Iesu Hanes* : Ni wyddai Paul ddim am Iesu Hanes, neu o leiaf nid oedd o ddiddordeb iddo. Dilyn Paul wnaeth Iawnffyddiaeth. Dyna ydyw. Cam â'r Iesu oedd hynny. Os am ddeall ei efengyl, a gwerthfawrogi ei esiampl a'i neges i'r byd rhaid ei weled fel ei ceir yn yr efengylau. Ymgais fawr Undodiaeth y gorffennol oedd *mynd yn ôl at Iesu.*

(*a*) *Iddew oedd Iesu* : Ni fedraf gyfrif amdano ar wahan i gefndir hanesyddol a chrefyddol ei oes a'i wlad. Un yn byw o fewn terfynau ei gyfnod ei hun. Ni wyddai'r Iesu a wyddom ni heddiw. Eithr y tu ôl iddo yr oedd datguddiadau mawr ei gyd-genedl. Yng nghyflawnder amser daeth yr Iesu nid i dorri ond i gyflawni. Yn hanesyddol ni fedraf weled neb o "dype" yr Iesu yn codi yn unman arall. O anghenraid Iddew oedd yr Iesu.

(*b*) *Credaf felly yn Nyndod fawr yr Iesu* : I mi dyn oedd Iesu ac nid Duw ar lun dyn. Dyna'r Iesu a welaf yn yr efengylau. Chwiliaf yn fanwl ond ni fedraf weled yr un cyfeiriad at yr Iesu Goruwch Naturiol. I'r disgyblion "Iesu mab y Saer" ydoedd. Pe bai arall, a wnai Pedr ei wadu ?—Judas ei fradychu ?—ie, tybed a fyddai iddo gael ei groeshoelio o gwbl ?

Meddianau yr un natur ddynol yn y gwraidd â minnau, eithr bod yna wahaniaeth. Ni cheir y gwahaniaeth yn yr enedigaeth. (Credaf mai ymgais at gyfrif am fawredd ei Berson yw stori'r Enedigaeth wyrthiol. Fe geir storïau o'r un fath yng nghrefyddau eraill y byd). Credaf i Dduw yr Iesu weithio ar linellau sydd heddiw yn gyson â deddfau y Bod Ysbrydol. Mater o "datblygiad cynhyddol" Enaid yn unol ag ufudd-dod i Dduw—y ffordd honno

y perffeithiwyd ei ddyndod nes dod yn ddwyfol ddynoliaeth.

Credaf fod Duw erioed yn ymgnawdoli ei hun yn y dyn da. Ond yn yr Iesu gwelaf eithafbwynt yr ymgnawdoliad dwyfol, a'r ymgnawdoliad hwnnw yn dywedid am bosibiliadau ardderchog y natur ddynol—y posibiliadau *ynof fi*. Nid disgyniad Duw y Nefoedd i'r ddaear er achub dyn, ond dyrchafiad dyn i bethau'r nef er achub Bywyd i gyd, a hynny nid ar linellau y sydyn a'r gwyrthiol ond y Moesol a'r Ysbrydol. Duw yn torri ar enaid dyn a phrydferthwch enaid yn ymagor fel ymagor o'r blagur ei emrynt i haul y nef.

Yr ymgnawdoliad hwn yw'r esboniad ar ei fywyd i mi, a chyfrinach ei fywyd a'i weinidogaeth. Dyna a gyfrif am ei weithredoedd nerthol,—a dywedodd wrth ei ganlynwyr bod yr un pwerau nerthol yn bosibl iddynt hwythau.

Diystyr a diwerth yw Iesu fel Duw, oherwydd peidia a bod yn esiampl i ni. Os fel Duw y cafodd ei demtio yn yr anialwch nid oes neges i mi yn yr hanes. Os fel Duw y chwysai yn ei ing a'i weddi yn yr ardd diamcan y croeshoelio ar Galfari. Os Duw a groeshoeldiwyd nid oes i'r Groes ei gwerth i mi. Datguddiad mawr yw'r Groes—datguddiad Cariad, a gallu Cariad yn erbyn drygioni y byd. Gwell gennyf i fyw yng ngoleuni y Groes, ac nid yn ei chysgod.

Gwerth y cyfan felly yw datguddio o gymeriad Duw a phosibiliadau dyn,—a'r ffordd i Deyrnas nefoedd ar y ddaear. Yn ei fyw a'i farw gwelaf ffynnonau y nerthoedd cudd y mae Duw wedi eu rhoddi yn Enaid dyn sydd yn Un a Duw. I mi felly mae'r Iesu yn ffordd, yn wirionedd ac yn fywyd—"Gwaredwr yr Enaid"—a'r cyfan yn dibynnu nid ar *ddogma* ond ar fenter Enaid i fyw fel yr Iesu.

(2) Ond credaf bod Iesu yn fwy na hanes.

(*a*) *Credaf yn y profiad crefyddol a hwnnw yn brofiad Cristnogol.* Iesu Hanes oedd yr Iesu. Eithr ni fedrai croes na bedd godi'r Iesu y tu fewn i glorian hanes yn unig. Credaf bod ymgais yr "hen" Undodiaid yn myned "yn ôl at Iesu" i esbonio y profiad sydd heddiw" yn annigonol. Gwerth yr Iesu i mi a welir nid yn gyfangwbl yn ei egwyddorion a'i efengyl, na chwaith yn ei esiampl ond yn y "profiad." Credaf bod Iesu o hyd yn fyw, ac felly credaf yng ngrym ac egni y profiad Cristnogol. Hwnnw sydd eisiau heddiw.

(*b*) Felly, credaf yn y Presenoldeb Dwyfol, a chyflawni o'r addewid fawr—"Wele y byddaf i gyda chwi, ni'ch gadawaf yn amddifad" ? Dyna oedd ffynhonnell nerth a dewrder yr Apostolion bore—y "Realiti Mawr" oedd yn gefndir cadarn i'w gweinidogaeth. Dyna'r Crist i mi yn yr Iesu o hyd.

Cymeriad.

Gan Hen Henundodwr.

Cymeriad yn ei hystyr helaethaf ydyw cyfanswm y teithi a nodwedda bersonoliaeth dyn, eithr yma pwysleisir yr agwedd foesol ac ysbrydol iddo. Er hynny rhaid yw nodi un dylanwad anianol pwysig a ysgoga ymarwedd pob dyn, er da neu ddrwg. Y peth hwnnw ydyw ei Haniad. Gosodir rhai o seiliau cymeriad dyn cyn ei eni. Y mae pob plentyn a enir yn etifeddu teithi arbennig oddi wrth ei gyndeidiau. Dyna ystyr y frawddeg "Y plentyn yw tad y dyn."

Heblaw'r gynsail etifeddol hon y mae llawer o gyfryngau eraill yn cyfrannu'n helaeth i ffurfio cymeriad. Wele rai ohonynt—

(1) *Pwyll neu Reswm.* Doeth iawn ydyw sylw'r hen fardd Rhufeinig Juvenal mai "peth i'w ddeisyfu ydyw meddwl iach mewn corff iach." Un o brif swyddi'r cyfryw feddwl ydyw ymresymu a mantoli rhwng y da a'r drwg, y gwir a'r gau.

(2) *Cydwybod.* Anodd yw deffinio "cydwybod" ond deuwn yn ddigon agos ati drwy ddweud mai hi ydyw'r llais mewnol sydd yn dedfrydu ar iawnder ein bwriadau a'n gweithredoedd. Gyda chymorth rheswm goleuedig y mae'n foddion cryf i'n cadw rhag cyfeiliorni mewn gair a gweithred.

(3) *Addysg Grefyddol.* Y mae meddwl plentyn yn agored iawn i ddylwanadau ac mae'r gynneddf efelychol yn gryf iawn ynddo. Y mae felly o'r pwys mwyaf beth a wêl ac a glyw pan yn ifanc. Y mae'r argraffiadau bore yn rhai parhaol iawn. Cytunaf felly fod cyfrannu addysg grefyddol *o'r iawn ryw* yn ein hysgolion i'w groesawu'n fawr. Eithr y mae'n rhaid nodi'r perygl mawr y manteisir ar y cyfleustra hwn i adeiladu neu i atgyfnerthu corff o ddiwinyddiaeth rhagor gwella moes a chymeriadau plant. Gellid meddwl, er enghraifft, mai dyna yw nôd yr Eglwys Babaidd. Y mae eisoes ormod o ddiwinyddiaeth amheus wedi ei sylfaenu ar ffugdybiau'r tadau am greadigaeth dyn a'i gwymp yn Eden. Nid syrthio o berffeithrwydd a wnaeth dyn ond datblygu'n raddol i'w gyflwr presennol. Eto clywais ar y Radio fwy nag unwaith yn ddiweddar ganu cynulleidfaol egniol am y cwymp yn Eden, a phlant ein hysgolion yn gwybod nad gwir yw'r hanes. Ni hyrwydda peth felly feddwl onest sydd yn anhepgor i gymeriad cywir. Ni ellir magu cymeriadau da ar ffug.

Ymddengys mai sylfaen gobaith y mwyafrif o Gristnogion am iachawdwriaeth ydyw "aberth ddirprwyol" Iesu ar y groes. Eto gŵyr pob Cristion goleuedig mai'r unig beth a rydd wir foddhad iddo ydyw ufuddhau i ddeddfau moesol y greadigaeth. Y mae'r deddfau hyn yn ddifeth yn eu canlyniadau yn ôl ymagwedd dynion

tuag atynt—yn dwyn cosp i droseddwyr a thangnefedd a diddanwch i'r rhinweddol. Er gwaethaf diwinyddion a chredoau eglwysig, na all dim arall ddigwydd heb i'r Duw anghyfnewidiol ymwadu a'i i'r rhinweddol. Er gwaethaf diwinyddion a chredoau eglwysig, ni chredaf y rhyfygwn nac y cyfeiliornwn pe ychwanegwn na all dim arall ddigwydd heb i'r Duw anghyfnewidiol ymwadu a'i ordinhadau ei Hun. Cafodd Iolo Morgannwg olwg bur gywir ar y gwirionedd mawr hwn pan ganodd—

"Cydwybod euog dan ei fron,
Gwae'r un a deimlo'r bicell hon,
Ni wêl ni phrawf ddaioni Duw ;
Ond asgre lân y galon bur,
Mae'n llawn amynedd dan bob cur,
Mae'n barod yn y nef yn byw."

Os dilys yw'r ystyriaethau hyn y mae'n canlyn mai cymeriad glân ydyw hanfod iachawdwriaeth pob dyn a'i gyfaddaster i nefoedd yma ac oddiyma. Nid oes y fath beth a dirprwyaeth mewn achubiaeth enaid. Oni cheir ategiad cryf i'r honiadau hyn yn nameg y Mab Afradlon, y ddameg odidocaf yn y Testament Newydd ? Ni welaf ynddi awgrym am gyfryngdod—dim gair ond am yr afradlon pan "ddaeth ato ei hun" yn gadael gwlad y cibau a'r moch ac yn dychwelyd i fynwes ei dad.

(4) *Cymdeithas â'r Anfeidrol.* Dilys ydyw mai'r ffordd effeithiolaf oll i sylweddoli cymeriad glân ydyw ymdeimlo a Chreawdwr a Chynhaliwr y bydysawd yn holl gysylltiadau bywyd. Wrth ein llaw y mae ffynonellau tragwyddol dihysbydd i'n cynorthwyo a'n hysbrydoli. Fel y mae cymdeithion drwg yn llygru moesau da, felly y mae cymdeithasu a'r da yn santeiddio. "Gwyn ei fyd y dyn y mae ei gadernid ynot."

Y mae cynghanedd berffaith rhwng yr holl ddeddfau anianol. Y mae'r oll yn un gyfundrefn anferthol, diŵyro, heb ynddi na chysgod cyfnewidiad na gwrthdarawiad o fath yn y byd yn y digwyddiadau lleiaf nac yn ysgogiadau mwyaf yr eangderau : y maent yn syfrdanol yn eu hunoliaeth. Onid teg felly ydyw tybio bod cyfatebiaeth agos rhwng datblygiad anianyddol a diwylliant eneidiol ? Peth araf, ie araf iawn, fu datblygiad y corff o ddistadledd cyntefig i'w gyflwr cymhleth urddasol presennol : araf hefyd yw diwylliant enaid a pherffeithiad cymeriad. Er mynych lithro'n ôl, yn enwedig mewn cyfnodau cythryblus, credaf nad yw'r dirywiad yn un parhaol. Y mae profiad y dyn unigol a phrofiad y ddynolryw hefyd yn debyg i eiddo gŵr yn dringo mynydd uchel. Y mae'r ffordd yn anwastad—weithiau i fyny, weithiau i lawr—ond ar y cyfan esgyn y mae. Eisoes fe fu cynnydd mawr mewn diwylliant fel y gwelir o gymharu cyflwr meddyliol a moesol dynion

cyntefig ag eiddo goreuon yr hil. Parhau wna'r broses hyd oni enillo dyn y perffeithrwydd uchaf y medr meidroldeb ei gyrraedd. Gweledigaeth o'r datblygiad moesol hwn a symbylodd y bardd Saesneg i ganu un o'r emynau godidocaf yn y byd—

> "These things shall be ! a loftier race
> Than e'er the world hath known shall rise,
> With flame of freedom in their souls
> And light of knowledge in their eyes."

Beth bynnag a ddigwydd wedi croesi'r llen y mae'n dra sicr gennyf na lwyr weddnewidir natur a chymeriad dyn y funud y diosgir y corff anianol—y troir pechadur yn sant mewn amrantiad. Haws yw gennyf synied am barhad ei ddiwylliant a pherffeithiad graddol ei gymeriad o dan amodau moesol y gwyddom amdanynt yma.

Dyna'r casgliadau a gymhellir arnaf o ystyried hanes y byd nid am ychydig o filoedd o flynyddoedd ond am filiynau aneirif yng nghwrs ei ddatblygiad.

Ein cred am Frawdoliaeth Dyn.

Gan y Parch. Aubrey Martin, B.A., Stockton-on-Tees.

Tuedd hereticiaid yr Oesoedd Canol ac wedyn oedd pwysleisio'r pethau oedd yn hanfodol yn eu barn hwy (onid oeddent hwythau hefyd wedi mynd yn benboeth dros eu dogmau arbennig eu hunain). Aent yn ôl yn syth at grynhoad mawr yr Iesu ac eraill o hanfodion y Gyfraith : "Ceri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon. . . . Câr dy gymydog fel ti dy hun." Galwyd ein crefydd ni yn "Gristnogaeth yn ei ffurf symlaf a mwyaf deallus," gan bwyso ar y ddau hanfod : Tadolaeth gyffredinol Duw a Brawdoliaeth dyn. Ac yr oedd yr egwyddor hon i'w chymhwyso'n gyson at bob cylch o fywyd, at y bywyd personol, at fasnach a gwladwriaeth. Yr oedd popeth i hyrwyddo sylweddoli'r frawdoliaeth hon. Dyna ddelfryd Denck a'r Ailfedyddwyr.

Nid damcaniaeth ddiddorol yn unig oedd y gred hon iddynt, ond ffaith yng Nghrist. Cymodwyd Iddew a Chenedlddyn, caeth a rhydd, yn yr Eglwys Fore gan ysbryd Crist. A thrwy yr ysbryd hwnnw meddiannwyd yr aelodau gan yr ymdeimlad byw bod pob enaid o anfeidrol werth am ei fod yn werthfawr yng ngolwg Duw. Dysgasai'r Stoiciaid ryw fath ar gydraddoldeb, wedi ei seilio ar y gred y gallai pob dyn fyw bywyd rheswm. Ond nid ar ddamcaniaeth oer felly y seiliwyd profiad a ffydd y Cristnogion. Carodd

Duw y *byd*, ac nid rhywrai dethol ynddo, a gwyddent hwy fod holl fwriadau Duw ar gyfer dyn wedi eu sylweddoli yng Nghrist : "fel yng ngoruchwyliaeth cyflawnder yr amseroedd y gallai grynhoi ynghyd yng Nghrist yr holl bethau sydd yn y nefoedd ac ar y ddaear." Ac yr oedd ef i fod yn "gyntaf-anedig ymhlith brodyr lawer."

Dyma'r maen sydd yn y gongol,
Dyma'r garreg werthfawr bur,
Gloddiwyd allan yn y bryniau,
Bryniau tragwyddoldeb dir.

Gan hynny dylai pob trefn a gorchwyl a bwriad gyfrannu at sylweddoli'r "dyn llawn dwf, at fesur maintioli cyflawnder Crist."

Sylweddolwyd y frawdoliaeth hon i ryw raddau yn yr Eglwys Fore, a'i swydd hi oedd taenu egwyddorion ac ysbryd "teulu Duw" drwy fywyd cymdeithas gyfan drwy fod yn "berarogl Crist."

Hanfod y greadigaeth yw brawdoliaeth. Hanfod addoli yw cymod : "yn gyntaf cymoder di â'th frawd." "Canys yr hwn nid yw yn caru ei frawd yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn nis gwelodd ?"

Ac fe ddylai brawdoliaeth nodweddu pob gorchwyl, mewn gwaith, mewn siop, mewn unrhyw alwedigaeth. Pan rydd rhai dynion eu gwaith i fyny y maent ar goll i gyd oherwydd colli hen gymdeithas eu cydweithwyr. Fe weddnewidid aml i orchwyl pe sylweddolid cymdeithas felly drwyddo. Cyfrannu at les uchaf pob dyn a ddylai pob diwydiant, lles y rhai sy'n cynhyrchu yn ogystal â'r rhai sy'n mwynhau'r cynnyrch. Ysbryd fel yna oedd yn cymell Denck a'r Sosiniaid bore.

Y mae dwy enghraifft ragorol gennym o'r ffydd ym marawdoliaeth dyn yn gweithio'n rymus. Un o feistri cotwm rhan gyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd John Fielden, a hyrwyddodd Ddeddf y Deng Awr drwy'r Senedd er mwyn atal plant bach rhag gweithio oriau maith mewn ffatrioedd a phyllau glo. Pe sylweddolid y gwelliannau a gymeradwyid yr oedd perygl i Fielden i golli ei gyfoeth. Er hynny ymegniodd i'w hyrwyddo, a chefnogi'r gweithwyr i ffurfio Undebau Llafur. Ei ymwybod byw â lles ei gyd-ddyn a'i gwnaeth yn ddiwygiwr i gymdeithas.

Yna dyna Iolo Morgannwg, yn llawn o sêl dros "Freiniau Dyn" ym mhobman, yn gwrthod arian ar ôl ei frodyr am mai drwy galedwaith caethion y'u gwnaed.

Hanfod addoli yw brawdgarwch a chydgynnull, er mai ysbryd anghariad sydd yn teyrnasu mewn aml i gynulleidfa ysywaeth. Er hynny na ddigalonnwn, oherwydd gwyddom taw hanfod y greadigaeth yw brawdoliaeth, a gweithiwn heb flino i daenu ei hysbryd, gan wybod y daw teyrnasoedd y ddaear yn eiddo i'n Harglwydd ni a'i Grist Ef.

Dyn.

Gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

Anodd synio am ddyn ar lun a delw Duw mewn un tudalen gan fynd heibio'r atom y sydd filiwn o weithiau yn llai o drwch na blewyn o wallt pen a deall yr adeiladir mater o atomau fel mur o briddfeini a chael yn y diwedd nad yw ond unedau o drydan. Ni ŵyr neb sut y daeth y cread i fod a gorwedd gwerth pennod gyntaf Genesis nid yn ei gwyddor ond yn y ffaith y priodola'r cyfan i Dduw. Ni ddywed gwyddor sut y daeth bywyd i fod ychwaith ond ar sail gwaith fferyllwyr (*Synthetic Chemists*) hwyrach y down i weld i fywyd godi o ddeunydd difywyd, ac y gallwn sôn am y Cread Byw. Syml iawn oedd bywyd ar y dechrau—tebyg i'r glesni ar bost neu lys ar lan y mor. Anodd dyfalu amser. Dywed Keith fod bywyd yma wyth can miliwn o flynyddoedd yn ôl ac i'r epa a'r dyn ymwahanu filiwn o flynyddoedd yn ôl. Nid oes gan mlynedd eto oddiar yr adeg y cyhoeddodd Darwin ei lyfrau ar Ddatblygiad. Y mae cam bras o reddf i gwstwm, ac o gwstwm i ddeddf. Ni etifeddau ond awgrym o'r cyfeiriad y cerddwn a'r gallu i gadw ymlaen. Mhen tro daw crefydd i fywyd dyn ac y mae mor orfodol a chwstwm. Nid yw moesoldeb yr anwar ond arferion da'r llwyth nes dod o rhain i sefyll am y bywyd da—dros gryfder, doethineb, hapusrwydd a hir ddyddiau. Ni ŵyr neb pryd y daw enaid i ddyn os daw o gwbl. Hwyrach nad yw ond personoliaeth wedi ei phrifio wrth ddysgu'r grefft o fyw. Pwysleisir cydwybod fel llais Duw ond hwyrach nad yw ond megis talent wedi'r cyfan i gyd. Nid yw hiraeth a dyhead dyn ond datblygiadau . . . hwyrach addewidion Duw, a chalon dyn fel y radio yn derbyn y neges, pwy ŵyr ?

Gwyddom fod yna nerthoedd uwch ac is mewn dyn, a dyna pam y sonir am anfarwoldeb amodol. Pan roddo dyn ei fryd ar bethau a dderfydd, nid yw ond yn suddo'n ôl i fywyd yr anifail ac yn diflannu fel anifail. Yma y dylasem sôn am bechod. Nid mân lithriadau mo pechod ond dyn yn gwybod am y gwerthoedd uwch ac yn dewis yr is gan dynnu y dyn ynddo i lawr i lefel yr anifail a'i uffern yw ei fod yn gwybod yn well a rhywbeth o'r herwydd yn ei boeni er mwyn ei gael eilwaith i fyw fel dyn. Profiad goreu gwŷr Duw yw'r Beibl ynghyd a hanes ymchwil dyn am Dduw. Y gwirionedd ble bynnag y'i ceir yw Gair Duw. Nid yw Crist ond dyn wedi prifio i'w lawnder, ac wedi byw y gwerthoedd uwch gan fodloni ef ei hunan a Duw, a dyna nefoedd dyn ! Rhy anodd awgrymu sut y daeth dyn i wybod am Dduw ond onid oes hedyn o Dduw mewn dyn, ni allasai dyn synio byth am Dduw. Plentyn Duw yw dyn ac yma yn yr ysgol y mae yn dysgu'r grefft o fyw a

phrifio enaid. Teimla ynddo rywsut fod nerth yn ôl y dydd a'i fod yn codi yn nes at Dduw ym mhob cenhedlaeth. O edrych yn ôl at y protozoa teimlwn fod dyn wedi cerdded ymhell. O edrych ar Iesu Grist teimlwn fod gennym bellter dybryd i'w gerdded eto, ac ar waethaf addewid o nefoedd gan yr eglwys ni chredaf y gofyn dyn gan Dduw ond y gallu i fynd ymlaen, a dyna yn ôl Dr. Fosdick rodd bennaf Crist i ddyn—y gallu i ddod yn blentyn Duw.

Aelodaeth Eglwysig.

Gan Dr. R. O. Jones, Llundain.

Ni ofynnir i neb sydd am ymuno â chynulleidfa Undodaidd fel aelod beth a gredo ac ni ddywedir wrtho beth sydd rhaid iddo gredu cyn ei dderbyn i aelodaeth. Cymerir yn ganiatаol ei fod mewn cydymdeimlad i raddau helaeth â golygiadau'r eglwys neu ni fyddai am ymuno. Yn enwedig cymerir yn ganiatаol ei fod yn cymeradwyo'r rhyddid meddyliol ag ysbrydol yma y saif ein mudiad drosto. Y mae pob addolwr yn rhydd i ddal y ffydd fel y mae ysbryd Duw yn ei chymeradwyo iddo. Dyry hyn amrywiaeth iachus o olygiadau a safbwyntiau i'r enwad. Amheuaf yn fawr a oes unrhyw aelod o eglwys Undodaidd heddiw sydd yn credu y pethau y credaf fi ynglŷn ag amryw o bynciau diwinyddol ond gwn hefyd fod daliadau fy nghyd-aelodau ar y cwestiynau yma yn nes i'm daliadau i nag ydyw credo aelodau o unrhyw enwad arall. Nid ydym eglwys sy'n erfyn i bob aelod ddal yr un credoau a defnyddio erthyglau ffydd gosodedig i'w datgan ar goedd.

Ar y cyfan, cytunwn yn ein crêd yn un Duw, yn nysgeidiaeth yr Iesu a'r gwir batrwm o fywyd a osododd o'n blaen, ac ym marawdoliaeth dyn. Gan ein bod, mwy neu lai, yn cyfrannu yn gyffredinol i'r daliadau syml yma credwn y dylai pob aelod eglwysig geisio byw i fyny a'r delfrydau uchel yma ac ymdrechu dros sefydlu Teyrnas Duw yma ar y ddaear. Erfynir felly i'n aelodau i fyw bywydau da a gweithgar mewn ffordd hapus a chyda meddwl eang gan gredu fod yna rhyw wreichionen o'r dwyfol i'w hannog a'i megino i'w llawn fywyd yn hyd yn oed y pechadur a ymddengys o'r mwyaf anobeithiol.

Y mae mewn aelodaeth gyfrifoldebau i'r eglwys. Dylai pob aelod fynychu'r gwasanaethau yn gyson a chymryd rhyw ran yng ngwaith yr eglwys. Nid yw o un gwerth dweud y dylai y peth hwn a'r llall gael ei wneud, rhaid i ni'r aelodau osod ein llaw arno a'i

wneud. Hefyd dylai pob aelod fod yn barod i wneud aberth i sicrhau sefyllfa ariannol yr eglwys fel y galler talu cyflog deilwng o'i alwad uchel a phwysig i'r gweinidog.

Dwy waith yn y flwyddyn, yn y maen lleiaf, dylai'r aelodau gynnal cwrdd eglwys i ymdrin â materion yr eglwys. Yn y cwrdd eglwys blynyddol dylid ethol neu apwyntio pwyllgor yr eglwys am y flwyddyn ac o dro i dro dylai'r pwyllgor yma roddi adroddiadau o'i waith i gyfarfodydd o'r aelodau. Gellir galw aelodau'r pwyllgor yn ddiaconiaid os mynnir—gwneir hynny gan amlaf yng Nghymru ond nid yn Lloegr. Ond na fydded iddynt gael eu hethol unwaith ac am byth ta beth eu gelwir—dylent fod mwy fel aelodau'r Tŷ Cyffredin nag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi. Dylent wynebu etholiad mewn cwrdd eglwys mewn, dywedir, cyfnodau o dair blynedd, h.y., dylai'r drydedd ran ymddiswyddo a darostwng eu hunain fel ymgeiswyr i etholiad yr aelodau bob blwyddyn. Dyna'r ffordd i sicrhau gwaed newydd yn y pwyllgor o bryd i'w gilydd. A chan fod aelodau'r pwyllgor mwy fel aelodau'r Tŷ Cyffredin paham yr eisteddant ar wahan i'r aelodau eraill mewn sêt fawr? A'i democratiaeth ydyw hyn? Ond yr wyf yn awr yn siarad am *bwyllgor* yr eglwys tra gofynnodd y Golygydd i mi ysgrifennu am *aelodau'r* eglwys—ni fedrwch gadw Undodwr o fewn terfynnau caeth! Fel y gwir Undodwr ag yw gofynnodd y Golygydd, chwarae teg iddo, am fy marn *bersonol* a'm barn *bersonol* a roddais.

Interview a Gwyr Blaenllaw yr Enwad [gynt].

Gan Walch Ogwr.

Eisteddwn neithiwr ger y tân yn pendrymu yn y gwres. O ganfod dynion byw yn bigog trois at ddynion marw, er bod llawer o ddynion byw yn ddigon marw—yn llawer mwy marw na'r meirwon eu hunain. Meddyliwn y buasai'n burion peth pe cawn gan Dduw y gallu i alw y sawl a fynnwn o'm blaen. Yr own yn yr un picil a gwidman wedi calddu'i wraig ac wedi addo peidio priodi eilwaith heb ei chaniatâd. Gyda threigl amser priododd wedyn a hen ffrind yn dannod iddo ei anghysondeb gan ofyn iddo a oedd wedi gofyn i'r wraig gyntaf. "Do," oedd ei ateb parod, "sefais ar lan ei bedd cyn priodi gan ofyn iddi am ganiatad. Ni chododd yr un gwrthwynebiad, chware teg iddi, a chymerais yn ganiataol ei bod yn fodlon." Ni chododd Duw

ychwaith un rhwystr ar fy ffordd a chymerais yn ganiataol fod y gallu gennyf. 'Mhen ennyd gwelwn Undodwr syml a chyffredin o werinwr yn dynesu gan ofyn am ganiatad i siarad. Yr oeddwn yn rhy gysglyd i'w rwystro a gwneuthum fy hun yn gysurus i'w wrando. Dechreuais rwbio fy llygaid pan ofynnodd im am gael gweld gwŷr mawr y dyddiau gynt. Cyffesais na chredwn fod neb yn cymryd diddordeb ynddynt mwy, ond y galwn hanner dwsin a enwai yn ôl. Gwenodd wrth enwi Socin, Jenkin Jones, David Lloyd, Tomos Glyn Cothi, Parker a Gwilym Marles. Deellais pam heb ofyn iddo a chanmolais ei ddewis.

Cyn pen amrantiad safai Socin o'n blaen. Eidalwr ydoedd wedi'i eni yn Siena yn yr unfed ganrif ar bymtheg, a'i enw llawn oedd Faustus Socinus, a digon tebyg y gelwid rhywun yn Socin am fod y gair yn awgrymu *Sin*—pechod am y tybid fod rhywbeth yn bechadurus yn y syniadau. Ceir ei syniadau heddiw mewn Catecism bach a darn o gatecism mwy a gyhoeddwyd wedi'i gwblhau fel Catecism Racofia. "Ar faterion crefyddol y mae pob un yn rhydd i ffurfio ei syniadau ei hunan. Ni cheisiwn ond caniatad i fynegi ein hargyhoeddiadau ein hunain parthed pethau dwyfol heb ymyrryd o neb a ni." Y Testament Newydd *o'i ddehongli yn unol a rheswm* oedd sedd awdurdod gan adael traddodiad, credo, ac awdurdod yr eglwys o'r naill ochr.

"Dyna syniadau," meddai fy ymwelydd, "tebyg i syniadau Undodiaid Beiblaidd megis David Evans, Maesymeillion ; John Davies, Alltyplaca ; Owen Evans a llu eraill." "Ie," meddwn innau'n ddistaw. Wedi i Socin fynd daeth Jenkin Jones, Llwynrhydowen ataf. Armin oedd, ac esboniodd fod yr enw yn mynd yn ôl at Arminios a anwyd yn Holand yn 1560. Ar y pryd yr oedd Calfin wedi gwrthod rhyddid ewyllys gan ddal fod y natur ddynol yn gwbl lygredig. Dwy brif erthygl Calfiniaeth (1) oedd bodloni cyfiawnder Duw ag angau Crist er mwyn iechydwriaeth yr Etholedigion yn unig gan droi o'r neilltu yn eu hachos hwy ganlyniadau'r Pechod Gwreiddiol (2) a Duwdod gwir Crist er mwyn ei alluogi i wneud iawn effeithiol. "Pam," meddwn wrtho, "y'ch ystyrrid yn esgymun gan eich cyd-Gristionogion."

"Ni anghredem ni nemor o'r Credo," meddai, "ond credem yn Nuw gyda Christ fel Tad ac nid fel Unben, ac wedi meddwl os oedd Duw yn Dad heb ffafrio neb fod Crist wedi marw dros bawb. Ni fedrem ddeall gwrthodedigaeth Calfin a chredu mewn cyfiawnder a chware teg, a gwell oedd gwrthod Calfiniaeth na gwrthod darlun Iesu o Dduw fel tad."

Ni amheuem mohono. Ymhen tipyn daeth David Lloyd, Brynllefrith atom a gwelem ŵr hardd i'r olwg a'i lais fel sain cloch arian. Nid oedd dim amdani ond gofyn iddo paham y'i gelwid yn Ariad. Awgrymodd nad oedd Arius, y gŵr a roes ei enw i'r syniadau, ond presbyter yn un o eglwysi Alecsandria. "Nid oedd

Ariaeth ond cynnig i benderfynu perthynas personau'r Drindod ar sylfaen gwahaniaeth ac israddoldeb. Daliai'r Ariaid yn ôl Gordon 'fod y tri pherson yn fodau hollol ar wahân er fod y Mab a'r Ysbryd Glân yn bod cyn dechrau amser, eto eu bod yn ddyledus am eu bodolaeth i Ewyllys Duw. Mynnid fod Crist wedi rhaghanfodi ond delid ei fod wedi ei greu fel popeth arall gan Dduw. Gyda'r Ariaid, Gair Duw oedd y Beibl, a dyna esboniad y Non-Subscription yn Salter's Hall ac nid unrhyw heresi.' Ni chaniateai amser neu gofynasem iddo draddodi un o'i bregethau y dywedid y gellid ei chlywed ym Mhencarreg o Alltyplaca.

Cyn ein bod wedi ffarwelio a David Lloyd bron, daeth gwehydd i mewn atom, a'r wennol yn ei law. Ef ond odid oedd yr Undodwr cyntaf yng Nghymru, ac yn ddisgybl i Joseph Priestly. Pregethodd Ddatganiad o'i ffydd . . . gerllaw Gwernogau yn Sir Gaerfyrddin, Medi 11, 1794 a "dyma rai o'm broddegau yr adeg honno," meddai. "Yn proffesu fy mod yn Gristion ; yr wyf yn credu . . . fod Un ac nad oes ond Un bywiol a gwir Dduw . . . y Tad Cyffredinol . . . mewn perthynas i Iesu Grist, yr wyf yn credu mai efe yw yr hwn ordeiniwyd neu a neilltuwyd gan Dduw. . . . Yr wyf yn credu ar dystiolaeth yr Ysgrythurau mai *dyn* oedd Iesu Grist, megis ninnau. . . . Nid oes sylfaen i obeithio am faddeuant . . . drwy haeddiant un arall. . . ."

Deallaswn ar unwaith ein bod yng nghwmni meddyliwr blaengar a'i fod y cyntaf o'r Undodiaid Beiblaidd y cyfnod a ddaeth i ben gyda'r hen bregethwyr. Wedi iddo ddiflannu galwasom i fyny Americanwr enwog o Undodwr oedd yn rhy Undodaidd i Undodiaid yr Amerig. Llais protest oedd ei lais, ac ni ofnai brotestio yn erbyn athrawiaethau ysgrythurol yr eglwys—protest rheswm a chydwybod ac ymgais i gael synnwyr cyffredin i ddiwinyddiaeth a chysoni rheswm a datguddiad. Protestiodd yn erbyn athrawiaeth y Drindod, Pechod Gwreiddiol Cosbedigaeth dragwyddol, Iawn Crist a phrif ddaliadau'r uniongred gan bwysleisio cymeriad yn hytrach na chredo. Fe'i herlidiwyd a bu farw yn atgas gan ei gydgrefyddwyr am ei fod yn caru gwirionedd yn fwy na shiboleth un enwad.

Ni allasem lai na gwasgu ei law wrth ffarwelio am ei wroldeb yn wyneb pob erlid. Oedasau ennyd cyn galw ar Wilym Marles. Brodor o Wernogle oedd Gwilym ac aelod gyda'r Annibynwyr cyn iddo weld golau gwell. Dyma arwr '68, y gŵr a welodd gloi drws ei gapel ei hun gan ormeswr yn ei erbyn. Cydiodd yn y dors a estynwyd iddo gan Barker a Martineau a cherddodd yn gadarn oddi wrth Undodiaeth Feiblaidd at Undodiaeth uwch a gwell. "Ceisiais gyda Martineau," meddai "i roi sedd awdurdod ym myd rheswm a chydwybod olau dynoliaeth gan weld yr Iesu ymgnawdoliad o'r gorau. Pregethai gyda Thennyson ac eraill y Gobaith Eangach a dangosais i werinwyr fy ardal mai nid proffes

oedd crefydd ond rhywbeth i'w gwau yng ngodre cymeriad a thrwy fywyd bob dydd dyn. Symudais grefydd oddiar ei hen sylfeini ym mhroffwydoliaethau'r gorffennol a'r gwyrthiau. Pregethais gariad Duw gan ddysgu gwerin i gerdded law yn llaw a dysg a moes gan heric trais a gorthrwm scweier a stiward yn nerth Duw."

Ciliodd y gwŷr hyn un ar ôl y llall a minnau yn gofyn, "A oes yng Nghymru flaenorwr i'n harwain o dywyllwch i oleuni ac o'n difaterwch a'n diogi meddyliol i ryddid a gogoniant yn ôl traed y blaenorwyr hyn?" Tywyllodd ac ni chlywais mo'r ateb, ac ni welais y blaenorwr.

Arholiadau 1949—50.

Yr Arholiad ar Lafar.

Barn yr arholwyr yn gyffredinol oedd bod yr ymgeiswyr wedi ateb yn hollol foddhaol.

Yr Arholiad Ysgrifenedig.

Gwnaed ymdrech deg gan y plant i ateb y cwestiynau a osodwyd. Awgrymir yn gynnil y gellid treulio rhagor o amser yn ystod y flwyddyn i baratoi gogyfer â'r Maes Llafur. Nid oes dim allan o le mewn defnyddio pensil a phapur yn yr ysgolion Sul er cyfarwyddo'r plant yn y gelf o ysgrifennu atebion.

D. Lloyd Lewis
W. D. Jones } *Arholwyr.*

Safon I. *Dan 9 oed. Ar Lafar.*

Anne Evans, Phyllis Desmond, Delsie Desmond, John Davies, Lindyl Davies (Graig, Llandysul); Olwen Jenkins, Lewis Meuryn Thomas, Daff Thomas (Cribyn); Anne Jones, David Jones, Jessie Jones, Bryan Williams, Hywel Thomas (o Lwynrhydowen); James Howells, Goronwy Evans, Jack Jenkins, Violet Howells, Bet Jenkins, Mary Davies, Jennie Davies (o Gwmsychbant); Wynford Jones, Geoffrey Jones, Anne Rosemary Williams, John Williams (o Frondeifi); Lena Evans, Pauline Williams, Betty

Williams, John Bundock (o Alltyplaca) ; Eirwyn Evans, Bobby Evans, Nannie Davies, Eileen Evans (o Bantydefaid) ; David Emlyn Jones, David Tom Thomas, Thomas Mansel Dudley, Annie Margaret Doreen Evans (o Fwlchyfadfa).

Safon II. *Ar Lafar. Dan 12 oed.*

Lyn Evans, Thomas D. Jones (Graig, Llandysul) ; Nel Davies, Audrey Chaney, Eric Jones, Alun Davies (o Gapel y Bryn) ; Kenneth Crabbe, Tom Davies Jones, George Davies (o Lwynrhydowen) ; Vernon Jones, Mary Griffiths (o Frondeifi) ; Lynn Havard, Cyril Johns, Addie Johns, Betty Evans (o Gwmsychbant) ; Eilir Jones, Nanna Evans (o Bantdefaid) ; Llinos Lloyd, Anne Jonathan (o Giliau).

Safon II. *Ysgrifenedig. Dan 12 oed.*

Gwobrau—Margaret Griffiths, Rhydygwin ; Betty Evans, Bwlchyfadfa.

Tystysgrifau—Christina Hughes, Rhydygwin ; Margaret M. Jones, Bwlchyfadfa.

Safon III. *Dros 12 oed. Ysgrifenedig.*

Gwobrau—Olwen Thomas, Derick Davies (o'r Graig, Llandysul) ; Hilary Jonathan, Ciliau ; Sarah Dilwen Davies, a Irene Jones (Capel-y-Bryn).

Tystysgrifau—Islwyn Jones a Barbara Davies (o Bwlchyfadfa) ; Betty Morgan (Capel y Bryn) ; Gwenda Morgan a Clive James (Brondeifi) ; Rayanna Evans, Margaret Ceri Ryder, Margaret Eluned Williams, Mary Anne Dudley, Betty Aneira Jones (i gyd o Lwynrhydowen) ; Jean Jenkins, Cwmsychpant ; Sally Jones a Jean Griffiths (o Rhydygwin) ; Mary Lilian Rees, John Walters, Gwendoline Jones, Derick Pryce Jones (o Alltyplaca).

Gohebiaeth.

ANNWYL OLYGYDD,—

GAF i gywiro camsynied a ymddengys o dro i dro ar dudalennau YR YMOFYNNYDD parthed hen gapel Onnen-fawr. Gwelir ef eto yn rhifyn Mai lle y sonia Sylwedydd fel y carai "adael y bus yn Llandybie a cherdded i gyfeiriad (? trwy) Llandyfan i weld *adfeilion* hen eglwys Undodaidd Onnen-fawr." Mae eraill yn flaenorol, ac hynny yn ddiweddar, wedi datgan yr "erys yr hen gapel yn ddifeithfa heddiw" a'u profiad "o rodio ym mhlith yr adfeilion." Y ffaith yw nad oes nac adfeilion na diffeithfa heddiw lle unwaith y safai yr hen gapel. Yr hyn oedd wir hanner can mlynedd yn ôl nid yw wir mwyach. Pan ymwelais ar fan ddwy flynedd yn ôl, wedi fy nghyfarwyddo gan hynafgwr yn un o fythynod Llandyfan, ni chefais mae y

"Drain ag ysgall mall ai medd
Mieri lle bu mawredd"

chwedl y bardd, ond anedd-dy braf a gardd flodeuog a ffrwythlon, a gwraig serchus wrth y drws i roesawu'r dieithryn, ac i adrodd gyda balchder a pharch fel y mynychai hi, pan yn blentyn, yr ysgol Sul yn y lle. Ac wele hi yn awr yn nythu ar yr allor. Ni ofynais iddi pa bryd yr adeiladwyd y tŷ, nag wrth ba enw yr adnabyddir ef, a dengys hyn mai prentis wyf fel hanesydd. Ond cofiaf y diweddar Dr. Arthur Lloyd Jones o'r Mumbles yn dywedyd wrthyf 35 mlynedd neu ragor yn ôl, fod yr Ymddiriedolwyr wedi gwerthu y freehold am ugain punt ac wedi trosglwyddo yr arian i'r Gymdeithas Undodaidd yn Llundain. Yr oedd ef, 'rwy'n credu, yn un o'r ymddiriedolwyr apwyntiedig neu fel executor ei dad o Landeilo. Nis gwn a adeiladwyd yr anedd-dy y pryd hwnnw ond ymddengys i mi ei fod wedi gweld chwarter canrif o leiaf. Dywedodd gwraig y tŷ wrthyf ei fod wedi ei godi yn union ar seiliau yr hen gapel, ac mae mesurau yr hen deml yw mesurau muriau allanol yr anedd-dy ond nid wyf yn sicr a oedd hyn yn cynnwys seiliau y bwthyn oedd unwaith wrth y talcen. Dichon mai cerrig yr hen addoldy sydd yn y tŷ newydd. Wrth ymadael ar hen fangre teimlwn fod ryw gymwysder rhagluniaethol yn y ffaith mai un o blant yr eglwys sydd wedi cael noddfa ar sail yr hen deml, a bod Duw yr allor yn awr yn Dduw yr aelwyd. Felly, haneswyr hynaws, nid adfeilion na diffethfa ond gweddnewidiad welir heddiw, ac er ys blwyddi lawer, lle gynt y safai hen gapel Undodaidd Onnen-fawr, a da chwi, "verify your statements," ys dywed y Sais, neu fe ddewch yn sicr dan fflangell lem Dr. Tom Richards fel "rheprical repetitioners." Carwn awgrymu hefyd i'r awdurdodau y priodoldeb o ryw gyffelyb weddnewidiad i hen gapeli Cwmwrdu a Rhydyparc. Gan nad oes ddyfodol iddynt fel addoldai ai nid posibl iddynt wasanaethu eu hardal fel canolfannau i'r bobl ieuainc—*community centres*—a thrwy hyn ddatgan eto fawl i Dduw a hyrwyddo diwylliant dyn.

Yr eiddoch, etc.,

SIMON JONES, Pennard.

O.N. Codwyd y tŷ oddeutu pum mlynedd a deugain yn ôl a'i enw yw Pencefen yn ôl tystiolaeth Lt.-Col. J. E. Powell, Carreg Cennes.

Priodas.

Mai 20, yng Nghapel-y-Bryn, Mr. DOUGLAS A. DAVIES, Beilibedw, Llanwenog a Miss ANNITE PRICE, Landre, Llanwenog. Gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen a S. Morgan, Ficer y Plwyf. Hir oes a phob dedwyddwch.

Marwgofion.

Mai 24 bu farw Mr. THOMAS EVANS, Alltgoch, Cwrtnewydd yn 74 oed. Blin iawn oedd gan yr ardal ei golli ar ôl rhyw dair wythnos o anhwyldeb. Mis cyn ei farw yr oedd yn cynorthwyo yng ngweinyddu'r cymundeb yng Nghapel-y-Bryn lle yr oedd yn flaenor ac yn un o'r ffyddlonaf o'r aelodau. Yr oedd yn foneddwr o anian ac yn amaethwr llwyddiannus ar radd eang. Yr oedd y dorf enfawr yn y cynhebrwng ar ddydd ei angladd y dydd Llun dilynol yn fynegiad o'r parch oedd iddo. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. S. E. Bowen, Lewis Williams, T. O. Williams a S. Morgan, Ficer y Plwyf. Gadawodd mewn hiraeth dwys o'i golli merch a mab, tri brawd a chwaer. Bydd cof melys amdano.

Mawrth 4, yn Ysbyty Treforrus, bu farw DANIEL WILLIAMS, Cathelyd, Craig Cefn Parc, un o ddiaconiaid hynaf cynulleidfa Gellionnen a'r Graig. Ganwyd a magwyd ef yn y Felindre, ond pan sefydlodd yn y cylch hwn 58 mlynedd yn ôl, ymaelododd yng Ngellionnen a mawr oedd ei ymlyniad wrth yr achos. Carai adrodd am yr hen ffyddloniaid. Amaethwr ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ystyrrid ef yn arbenigwr. Bu cryn alw am ei wasanaeth fel beirniad aredig a chneifio a saethu. Yr oedd yn ddinesydd da, cymerai ddiddordeb mawr mewn llywodraeth leol, a gwasanaethodd ar Gyngor Gwledig Rhyndwyclydach am 30 mlynedd. Claddwyd ym mynwent Gellionnen y dydd Mercher dilynol. Gwasanaethwyd gan y Prifathro J. D. Jones, a'r Parchedigion E. S. Roberts, T. R. Lewis ac R. I. Pritchard.

Mawrth 30, yn 74 mlwydd oed, bu farw GWENLLIAN, gweddw'r diweddar Benjamin Richards, yn Swansea Road, Trebanos. Dioddefodd ddeunaw mlynedd o gystudd, ond yr oedd ei hysbryd yn llawen a'i meddwl yn fyw. Gwraig gymwynasgar ydoedd, ac yn y blynyddoedd a fu, gwasanaethodd eglwys y Graig yn dawel ac egniol. Pan gaethiwyd hi i'w chornel, parhaodd ei diddordeb yn yr achos. Llafuriodd yn galed dros ei theulu, a mawr ac annwyl fu eu gofal hwythau drosti. Claddwyd hi ym mynwent Gellionnen, a gwasanaethwyd gan y Prifathro J. D. Jones a'r Parchedigion Daniel John, R. Ll. Davies ac R. I. Pritchard.

Chwefror 22, yn sydyn iawn, bu farw GOMER DAVIES, annwyl briod Mabel Davies, 21, Kerrison Road, Battersea, Llundain. Bu yn dioddef am beth amser, ond daeth y diwedd yn sydyn. Mab ieuengaf y diweddar Mr. a Mrs. D. W. Davies (Brynfardd), Heol Newydd, Trebanos ydoedd. Athraw ysgol fu ar hyd ei oes. Wedi peth amser yn Nhrebanos, aeth i Goldsmith's College, Llundain, ac oddi yno i St. Albans. Yn 1920 apwyntiwyd ef yn athro yn ysgol Magdalen Road, Wandsworth, lle y gwasanaethodd hyd ddechrau 1944. O 1944 hyd 1945 bu yn gwasanaethu yn y Royal Arsenal, Penybont i gynorthwyo'i wlad yn ei chyfyngder. Yr oedd o natur heddychol ac addfwyn a braidd na ellir dweud ei fod yn or-haelio'us a charedig, a hynny ar draul ei golled ef ei hunan. Gadawodd i alaru ei golled, weddw, mab, merch, un brawd yr olaf o'r teulu, nith, nai a nifer luosog o berthnasau y rhan fwyaf ohonynt o Drebanos. Cymerodd yr angladd le y Llun dilynol yn Streatham Vale Crematorium Llundain. Er ei ofid, methodd ei unig frawd a bod yn bresennol.

Nodion yr Eglwysi.

CYMANFA GANU UNDODIAID DE DDWYRAIN CYMRU.—Llun y Pasg, cynhaliwyd Cymanfa Flynyddol yr undeb uchod yng Nghapel y Graig, Trebanos, o dan arweiniad Mr. Henry J. Williams, Trebanos, mab i gyn arweinydd, Mr. Willie Williams. Cafwyd tri chyfarfod hwylus, gyda graen ar y canu. Agorwyd cyfarfod y bore gan y Parch. S. E. Bowen, Alltyplaca ; y plant gynhaliodd yr oedfa hon, gan adrodd am yn ail, bob emyn yn gyntaf. Canodd Master Laurence Bowen, Trebanos gân wych Handel i Fiwsig, a'r organydd yn cyfeilio. Bu'r datganiad mor dda, fel y ceisiwyd arno roi unawd arall yn yr hwyr, pan canodd yn dra swynol, "Where'er you walk" (Handel). Wrth lywyddu'n y bore, yn lle Mr. Philip Powell, cyfeiriodd y Parch. Islwyn Pritchard, B.A., Trebanos at y nodyn o hiraeth yn y canu, oherwydd marwolaeth y diweddar Mr. Henry H. Morgan, hoff arweinydd y gân, yn y Graig. Yn y prynhawn wedyn, ar ôl agoriad teimladwy o'r cyfarfod gan y Parch. D. Jacob Davies, B.A., Aberdâr, a darllenodd am y bedd gwag, canodd y gynulleidfa, ar gais y llywydd, Mr. Roy John, M.A., Hen Dŷ Cwrdd, emyn coffa ar y dôn "In Memoriam" i dri chedyrn y gymanfa, ymadawedig oddiar y gymanfa ddiwethaf, Mr. Henry H. Morgan, arweinydd, y Parch. E. R. Dennis, Aberdâr, arweinydd y llynedd a Mr. John Hopkin, Trebanos, llywydd. Hefyd, yn yr hwyr, ar ôl araeth gan Mr. E. T. Williams, Aberdâr, a'r Parch. Marles Thomas, Cefn Coed Cymer yn llywyddu, chwaraeodd Mr. Isaac E. Hopkin, B.Sc., L.G.S.M., Largo (Handel) er cof pellach amdanynt. Yn y prynhawn adroddodd Nansi Evans, Trebanos, Corinthiaid XIII, yn rymus, ac yn yr hwyr adroddodd Mrs. Minna Jones yn dda, rannau

allan o St. Joan, gan G. B. Shaw. Cynygiodd yr ysgrifennydd, Mr. John Thomas, Hen Dŷ Cwrdd, y diolchiadau i bawb a gynhaliodd y Gymanfa, ac eiliodd Mr. Edgar Williams, Aberdâr y cynygiad. Aeth y ffrindiau'n ôl wedyn i Aberdâr, Cefn Coed, ac Aberteifi. Y flwyddyn nesaf, bydd dathlu dau can mlwyddiant yr achos yn yr Hen Dŷ Cwrdd; cawn gwrdd yno gobeithiwn, i gynnal y Gymanfa eto o dan arweiniad Mr. John Thomas.

COLLI CYFAILL.—Y mae'r Ymofynnydd a'i Olygydd wedi colli cyfaill cywir o'r Swyddfa yn Llandysul, oblegid dyrchafwyd Mr. David Jones, Llanbedr i Swyddfa arall Gwasg Gomer yn y dref honno. Diolch iddo am wasanaeth piwr a gwerthfawr am flynyddoedd lawer.

Y CLAWR NEWYDD.—Credaf fod Yr Ymofynnydd ar dro hanner y ganrif wedi cael y clawr harddaf a mwyaf awgrymiadol a gafodd erioed. Yr ydym yn ddyledus unwaith eto i Mr. John Park-Davies, gŵr disglaer a charedig sy'n dwyn un o enwau mwyaf annwyl yr enwag yng Nghymru. Ein diolch o galon iddo. Ni ddylai fod cywilydd ar neb roddi'r rhifyn yma yn llaw cyfaill a gofyn iddo ddyfod yn danysgrifiwr cyson.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.—Cynhelir Cyrddau Blynyddol yr uchod yng Nghapel-y-Fadfa, dydd Mawrth a Mercher, Awst 29 a 30. Llywydd, y Parch. E. Gwilym Evans, B.A. Ceir y manylion yn y rhifyn nesaf.

CAPEL-Y-FADFA.—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion cylch Llandysul yn y lle hwn Sul, Mai 21. Cafwyd tywydd dymunol a daeth llond y capel ynghyd a nifer y plant os dim yn fwy nag arfer, a chafwyd Cymanfa wir lwyddiannus. Holwyd yr ysgolion gan Mr. Lloyd Lewis, B.A., ysgolfeistr Cwrtnewydd, yr holi a'r ateb yn bwrpasol iawn. Arweinydd y gân oedd Miss Anne Davies, Pantmoch a gwasanaethwyd wrth yr organ gan Miss Thomas, Greengrove a Mrs. Evans, Pantglas. Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y myfyriwr Mr. Elwyn Davies, a thraddododd Mr. Lloyd Lewis anerchiad diddorol ar "Ofidiau a sut i gael gwared arnynt." Gofalodd chwiorydd y lle fod pawb yn cael ei wala o luniaeth.

LLUNDAIN.—Cafwyd sosial hapus iawn ar nos Iau, Mai 11, ac yr ydym yn ddyledus iawn i bawb a fu mor ddyfal gyda'r trefniadau a'r danteithion. Bu amryw o'r gynulleidfa mewn *Whist Drive* gynhaliwyd gan y Capel Saesneg, Nos Fawrth, y 16 a phleser cofnodi i Miss Ray Davies gipio gwobr. Diolchwn i'r Parchn. D. Jacob Davies, T. L. Jones, R. I. Pritchard, B.A. a J. Marles Thomas, M.A. am gymeryd ein gwasanaethau yn ddiweddar. Blin iawn oedd gennym ddeall na fedrai Mr. T. Bryn Jones, B.Sc. ddod atom o herwydd afiechyd. Gobeithiwn y caiff adferiad buan ac y cawn ei glywed yn ein pulpud yn glau. Bu'n amhosibl trefnu trip i'r Gymanfa Ganu, ond balch oeddym i glywed fod amryw wedi cyrraedd yno. Pleser mawr i rai ohonom oedd cwrdd a llawer o weinidogion Cymraeg yng Nghyfarfodydd y General

Assembly, ond dim ond un welwyd yno sydd mewn pulpud Cymraeg heddiw. Trueni na fyddai'r eglwysi Cymraeg yn ymdrechu danfon eu gweinidogion i'r G.A. o dro i dro, os na fedrant wneud hynny bob blwyddyn. Mwynhad oedd clywed y Parch. R. I. Pritchard yng Nghyrddau dathlu Canmlwyddiant y London District Provincial Assembly yn cyflwyno llongyfarchiadau'r ddwy Gymdeithas o Gymru. Cynhaliwyd cyrddau sefydlu y Parch. Wilfred Waddington fel Ysgrifennydd Gweinidogol yr L.D.P.A. ar y 3edd o Fehefin. Gobeithio y cawn yn Mr. Waddington gystal cyfaill ag y bu'r Parch. Arthur Pearson i ni. Y mae *Rhyl Street Mission* wedi cau ac yr ydym wedi cael cynnig yr adeilad am £5,500. Er fod ein cyfaill di-enw yng Nghymru yn credu fod gennym lawer o arian ofnwn nad oes digon gennym o bell ffordd i wynebu'r bil yma !

HIGHLAND PLACE (Tŷ Cwrdd y Graig).—Dymunwn longyfarch tri blaenor o'r eglwys yma sydd wedi derbyn anrhydeddau pwysig yn ddiweddar. Gwnaethpwyd Mr. J. L. Rowlands, ein Ysgrifennydd yn *anrhydeddus aelod dros oes* o Fwrdd Masnach Aberdâr, fel teyrnged am wasanaeth ffyddlon a difwlch oddi ar cychwyn y Bwrdd. Etholwyd Cadeirydd y gynulleidfa, y Cynghorwr Tom Morse, yn Gadeirydd Pwyllgor Iechyd y Dyffryn, a derbyniodd Mr. Herbert Jenkins oriawr aur gan berchnogion Siopau'r *Star Supply* am chwe mlynedd a deugain o wasanaeth.

DYRCHAFIAD.—Dyrchafwyd y Parch. J. H. Coram Davies yn llywydd y ' Western Union ' sef cyfundeb o Eglwysi Undodaidd yn Ne Lloegr. Y mae Mr. Davies yn dod yn un o wŷr blaenllaw'r enwad ac fe gafodd lwyddiant arbennig yn ei waith gydag Eglwys Lewin's Mead.

YR YMOFYNNYDD.—Oherwydd diffyg gofod bu raid cadw "Atgofion Sion Ifan Sion" a oedd i ddechrau'r mis hwn ynghyd â rhai ysgrifau eraill. Ni ddeil cylchgrawn mwy na llestr, fwy na'i lond.

MAER A MAERES LLANBEDR.—Maer a Maeres Llanbedr am eleni yw'r Cynghorwr y Parch. T. Oswald Williams, M.A. a Mrs. Williams. Un o wŷr disglaer yr enwad yw Mr. Williams a dug anrhydedd ar ôl anrhydedd i'r mudiad bach. Y mae'n fardd ac ysgolhaig Cymraeg gwych ond y mae'n fardd sydd a'i draed yn solet ar y ddaear a'i fryd a'i law o'r tu cefn i bob achos da, dyngarol. Bu'n aelod o'r cyngor Trefol oddi ar 1934 ; aelod o Bwyllgor Addysg y Sir a Bwrdd Rheolwyr yr Ysgol Eilradd heblaw bod hefyd yn aelod o Senedd Prifysgol Cymru Aberystwyth. Ef hefyd yw Cadeirydd Pwyllgor Cynllunio Gwlad a Thref Aberaeron a Llanbedr. Dyma ŵr yn ddiau sydd yn nhraddodiad gorau'r enwad o fod yn flaenllaw gyda gwasanaeth cymdeithasol. Y mae Mrs. Williams hithau (merch i'r diweddar J. D. Thomas, M.R.C.V.S., Ffoshelyg ac o linach hen deulu Llanfair) yn llawn deilyngu'r anrhydedd yma heb gysgod ei gŵr. Bu'n Ysgrifenyddes y Gymdeithas Nyrsio am 36 mlynedd ac yn aelod o Fwrdd y Gwarcheidwaid am dros 20 mlynedd ac ar hyn o bryd hi yw Trefnydd Canolog y W.V.S. yn

Llanbedr. Dyma'r drydedd gwaith iddynt deyrnasu yn yr uchel swydd yma a dymunwn Dduw'n rhwydd iddynt. Rhown yma'r weddi-emyn a gyfansoddwyd gan y Maer ar gyfer gwasanaeth Sul y Maer.

Ymgrymwn Ior, ger d'allor di
I ofyn nawdd y nef i ni,
Ac fel y gwlith dy fendith fawr
Mewn hedd doed arnom yma'n awr.

Sancteiddia'n cân, a phura'n ffydd
I'w byw, O Dad, i Ti bob dydd ;
Yn nes o doed dy deyrnas di,
Ein Duw yn awr bydd gyda ni.

EIN MYFYRWYR.—Da clywed fod Mr. Basil Hopkin wedi rhannu'r wobr gyntaf am adrodd a Mr. Elwyn Davies wedi ennill y lle blaenaf yn yr Arholiad Ysgrythyrol am yr Upton Prize. Rhannodd Mr. Davies y lle blaenaf hefyd am y papur Cymraeg gorau.

NIWL.

Llaith wisg fel gwawn yw'n disgyn—a chuddio
Â chaddug bob llecyn
Hefyd delw o fywyd dyn,—
Byr o oed, a brau wedyn.

Islan.

Y Crynhoad (*The Welsh Digest*), Cylchgrawn Dau-Fisol ; Gwasg y Brython, Lerpwl, 64 td. Pris 1!6.

Y mae'r *Crynhoad* yn gwella bob cynnig a chylch ei apêl wedi ei ddewis yn gyfrwys a doeth. Os ydych am fod a'ch bys ar byls llenyddol Cymru heb roi eich llaw yn rhy ddwfn yn eich poced, mynnwch y *Crynhoad* yn gyson.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.

HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT : - : BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING

TUBULAR HEATERS

ORGAN BLOWERS

LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS, MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES, REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

WATCHMAKERS

. . JEWELLERS . .

SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to Engagement and Wedding Parties.

I, Wind Street

Llandyssul . . . . Cards.